

Ydych chi'n hawlio triniaeth am ddim?

Peidiwch â chymryd yn ganiataol fod gennych hawl. Gallech orfod talu dirwy o hyd at £100 - yn ogystal â chost y driniaeth wreiddiol.

Pwy sy'n cael hawlio gofal deintyddol y GIG am ddim?

Mae gennych hawl i gael triniaeth am ddim os ydych chi:

- ✓ o dan 18 oed
- ✓ yn 18 oed ac mewn addysg llawn amser
- ✓ yn feichiog neu wedi cael babi o fewn 12 mis cyn i'ch triniaeth ddechrau
- ✓ wedi'ch cynnwys mewn cais am **fudd-daliadau penodol** - manylion drosodd
- ✓ wedi'ch cynnwys ar dystysgrif HC2 neu HC2W am gymorth llawn gyda chostau iechyd
- ✓ wedi'ch cynnwys mewn dyfarniad:
 - Credyd Treth Plant
 - Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd
 - Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu talu gyda'i gilydd

ac mae eich incwm teuluol blynyddol a ddefnyddir i gyfrifo'ch credydau treth yn **£15,276** neu lai.

Os ydych chi'n bodloni'r amodau hyn, fel rheol, byddwch yn cael Tystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG, sy'n ddilys am hyd at 7 mis.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, mae gennych hawl i gael archwiliad am ddim os ydych o dan 25 neu'n 60 oed neu'n hŷn.



Pwy sy'n cael hawlio gofal deintyddol GIG am bris gostyngol?

Gallech chi gael help gyda thaliadau triniaeth ddeintyddol os oes gennych dystysgrif HC3 neu HC3W ar gyfer cymorth rhannol gyda chostau iechyd. Mae'ch tystysgrif yn dweud wrthyfch faint y mae'n rhaid i chi ei dalu.

Pa fudd-daliadau sy'n rhoi hawl i chi gael gofal deintyddol am ddim?

Nid yw pob budd-dal yn rhoi'r hawl i chi gael triniaeth ddeintyddol y GIG am ddim. Gwiriwch pa fath o fudd-dal ydych chi'n ei dderbyn cyn llofnodi eich ffurflen hawlio ddeintyddol.

✓ Dim ond os ydych wedi'ch enwi mewn cais am un o'r canlynol y cewch chi **driniaeth ddeintyddol am ddim**:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith **yn seiliedig ar incwm**
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth **sy'n gysylltiedig ag incwm**
- Credyd Pensiwn (**Credyd Gwarant**)
- Credyd Cynhwysol - ond dim ond os oedd eich enillion yn ystod eich cyfnod asesu diwethaf yn **£435** neu lai, neu **£935** neu lai os ydych chi'n cael elfen ar gyfer plentyn neu os yw'ch gallu i weithio wedi'i gyfyngu

✗ **Nid oes gennych hawl** i gael triniaeth ddeintyddol am ddim os ydych chi'n cael eich enwi ar gais am:

- Lwfans Ceisio Gwaith **yn seiliedig ar gyfraniadau**, wedi'i dalu ar ei ben ei hun
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth **yn seiliedig ar gyfraniadau**, wedi'i dalu ar ei ben ei hun
- Credyd Pensiwn (**Credyd Cynilion**) wedi'i dalu ar ei ben ei hun
- unrhyw fudd-dal wedi'i dalu ar ei ben ei hun ac heb ei restru yn y blwch gwyrdd uchod (e.e. Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol neu Fudd-dal Analluogrwydd)

Ddim yn siŵr a oes gennych hawl i gael triniaeth ddeintyddol am ddim?

Os nad ydych chi'n siŵr a oes gennych hawl i gael triniaeth ddeintyddol y GIG am ddim (neu os ydych yn aros i gael gwytod), dylech dalu a gofyn am dderbynneb.

Os cewch wybod yn ddiweddarach bod gennych hawl a bod prawf gennych, gallwch wneud cais am ad-daliad. Gofynnwch i staff y practis deintyddol am ffurflen HC5(D) neu ffurflen HC5W(D) yng Nghymru, neu ewch i: www.nhsbsa.nhs.uk/freedental

Help gyda chostau triniaeth ddeintyddol

Efallai y gallwch gael help gyda chost eich triniaeth ddeintyddol a thaliadau GIG eraill trwy **Gynllun Incwm Isel y GIG**. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr a phensiynwyr.

Gallwch wneud cais os nad yw eich cynilion, buddsoddiadau neu eiddo (heb gynnwys lle rydych chi'n byw) yn fwy nag **£16,000**, neu ddim mwy na **£23,250** os ydych chi'n byw mewn cartref gofal yn barhaol.

Mae manylion pellach a gwybodaeth am sut i wneud cais yn: www.nhsbsa.nhs.uk/lowincomescheme

Roedd y wybodaeth yn y daflen ffeithiau hon yn gywir ym mis Mawrth 2018. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael yn www.nhsbsa.nhs.uk/freedental

© Hawlfraint y Goron 2018 Cynhyrchwyd gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG